# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Theatr Hafren, y Drenewydd**

Dyddiad: Dydd Gwener, 16 Chwefror 2018

Amser: 11.35 - 13.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4925

# External

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Ann Jones AC (Cadeirydd)<br>Mick Antoniw AC<br>Jayne Bryant AC<br>Russell George AC<br>John Griffiths AC<br>Mike Hedges AC<br>Dai Lloyd AC<br>David J Rowlands AC<br>Simon Thomas AC |
| Tystion: | Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru<br>Tim Render, Llywodraeth Cymru<br>David Morris, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kath Thomas (Ail Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Katy Orford |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins, Lynne Neagle, Nick Ramsay a David Rees.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd Mick Antoniw i'r Pwyllgor, a diolchodd i Huw Irranca-Davies am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor yn ystod ei amser fel aelod ohono.

## 2 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - Y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru

2.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Prif Weinidog mewn perthynas â'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, yn enwedig o ran effaith Brexit ac effaith trefniadau masnachu posibl yn y dyfodol.

2.2 Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch y materion a ganlyn:

- pa un a fyddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth pellach i gwmnïau sydd am fod yn rhan o deithiau masnach tramor sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys pa un a fyddai'n bosibl trefnu bod y daith gyntaf yn rhad ac am ddim; a
- sut y gellid cefnogi'r broses o gyflenwi cynhyrchion Cymreig i fanwerthwyr mawr.

2.3 Cytunodd y Prif Weinidog y byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i'r syniad o ddynodi bwyd a diod fel thema dwristiaeth am flwyddyn yn y dyfodol.

## 3 Sesiwn i graffu ar waith y Gweinidog - Materion Amserol

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Prif Weinidog ar faterion amserol.

## 4 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papur.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o'r sesiwn flaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn y sesiwn flaenorol a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion.